Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Chyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ddydd Mercher 2 Mehefin 2004 am 7.00pm

Yn bresennol: *Cynghorwyr:* Cyng D. A. Jones (Maer), Cyng R. Bellamy (Dirprwy Faer), Cyng K, Day (Cadeirydd), Cyng C. Jenkins, Cyng I. Gwyn, Cyng S. Burge.

Eraill: R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), C. A. Paterson (Clerc y Dref), Mrs S. Price (Clerc Newydd y Dref)

6123: Ymddiheriadau: Ni chafwyd rhai

6124: Materion Cynllunio.

Roedd y Cyngor wedi cael eu hysbysu bod yr apêl ynghylch y tir gerllaw Frondeg, Heol Caerfyrddin wedi bod yn llwyddiannus. Teimlodd yr arolygwr bod yr achos hwn yn unigryw. Mynegodd y Pwyllgor ei bryder nad oedd hwn yn ragamod, a bod datganiad yr Arolygwr yn arwydd o geisiadau'r dyfodol.

Rhif Cais.	Ymholiad	Sylwadau
E07108	Home Farm, Dinefwr. Adeilad Rhestredig	Dim Gwrthwynebiad
E07109	Granary, Home Farm Dinefwr	Dim Gwrthwynebiad
E06901	Ystafell Billiard Estyniad Fictoraidd	Dim Gwrthwynebiad
E06902	T 'r Drenewydd.	Dim Gwrthwynebiad
E06898	Nat West Stryd Rhosmaen	Dim Gwrthwynebiad
E06900	Nat West Stryd Rhosmaen	Dim Gwrthwynebiad

6125: Trwyddedu.
Roedd y Cyngor wedi cael eu hysbysu am un cais i newid trwyddedwr y Plough Inn yn Stryd Rhosmaen. Nodwyd. Nid o fewn ardal y Cyngor.

6126: Cau Stryd Rhosmaen ar gyfer ras feiciau. Cafwyd rhybudd rhwng y Cyngor Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor, ac felly yn rhy hwyr. Serch hynny, roedd y Cyngor wedi cael gwybod am y digwyddiad trwy Sarjant yr Heddlu.

6127: Cludiant a Goleuo.

Roedd y Pwyllgor wedi derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Babtie, yr ymgynghorwyr sy'n edrych i mewn i'r traffig yn Stryd Rhosmaen.

Rhoddwyd i'r Cyng Jones am Sylwadau.

Adroddodd y Cynghorydd Jenkins ar ddau ddigwyddiad yn Stryd Rhosmaen. Ar /05/2004 roedd yna bentyriad o dri char. Roedd yn rhaid i un teithiwr fynd i'r ysbyty. Canlyniad y tagfeydd a achoswyd gan hyn oedd lori fawr yn taro sgaffaldiau yn Baritas Coffee House i lawr. Adroddwyd y cyfan i Sarjant Jones a gofynnwyd iddo adrodd yn ffurfiol wrth y Cyngor ar y digwyddiad mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn. Cafodd y Cynghorydd Jenkins hefyd gwyn gan breswylwyr o Heol Cilgant ynghylch y goleuadau newydd ar y Stryd. Nid oedd gan y goleuadau newydd rannau sydd wedi'u diffodd tebyg i'r hen rai ac maent felly'n cael eu hystyried i fod yn rhy llachar.

6128: Yr Asesiad Risg

Fel y gofynnwyd iddo fe gysylltodd y Clerc â Mr Smith o RTS Associates ac mae o'n barod i fynychu cyfarfod o'r Cyngor Llawn i'w gynnal ar 20 Gorffennaf 2004. Clerc i gadarnhau.

6129: Gohebiaeth.
Llythyr gan Mrs Davies, Waverly, Stryd Rhosmaen, ynghylch Mynedfa palmant i'r Ganolfan Croeso, y Feddygfa a'r Llyfrgell.

Clerc i gydnabod y Llythyr ac i yrru copïau i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Llythyr gan Mrs Davies, Waverly, Heol Rhosmaen, yn diolch i'r Cyngor am y Rheiliau Treftadaeth ar hyd y Cilgant.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar am frwdfrydedd y cyhoedd a'r nifer fawr o atborth positif a chymorth a gafwyd ynghylch y Prosiect Rheiliau Treftadaeth.

6130: Llythyr o Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cynllun Integredig Rheoli Rosg. Pwyllgor yn nodi cau'r cyfnod ymgynghori a chynhyrchu dogfen 'Gwneud eich Cymuned yn Fwy Diogel'

6131: Holiadur ar broses y Grantiau Gwledig ynghylch 2 gais llwyddiannus y dref, yr Arolwg Treftadaeth a'r Rheiliau Treftadaeth.

Cyng Jones i'w lanw a dychwelyd i Gyngor Sir Caerfyrddin

6132: Llythyr gan Rhodri Glynn Thomas ynghylch materion traffig yn Stryd Rhosmaen.

Rhodri Glyn Thomas i gael ei gynnwys mewn cyfarfodydd yn y dyfodol am y traffig yn Llandeilo, ac i gael copïau o'r ohebiaeth i gyd.

6133: Llythyr gan Gyngor Cymuned Dyffryn Cennen ynghylch cyfarfod i drafod y traffig.

Clerc i ateb, yn datgan bod y Cyngor yn cefnogi eu llythyr, ond oherwydd etholiadau a'r gwyliau ym mis Awst y buasent yn hoffi gofyn am gynnal y cyfarfod hwnnw ym mis Medi. Amgáu copi o'r llythyr gan Rhodri Glyn Thomas.

Mae'r Pwyllgor yn nodi derbyn llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cartrefi gofal i'r henoed.

Daeth y cyfarfod i ben am am 9.45pm.